# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 15 Medi 2015

Amser: 13.30

## (282)v4

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd: Model ymateb clinigol newydd ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans brys

(30 munud)

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Datblygu Arfer Proffesiynol - drwy'r Fargen Newydd

(30 munud)

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Gweithlu'r Gwasanaethau Cyhoeddus

(30 munud)

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Cartrefi i boblogaeth sy'n heneiddio

(45 munud)

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 16 Medi 2015

# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad a gyflwynwyd ar 10 Medi 2015 i'w hateb ar 15 Medi 2015

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ganlyniadau TGAU ysgolion sy'n dod o dan raglen Her Ysgolion Cymru? OAQ(4)2421(FM)

2. **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol yng Nghymru? OAQ(4)2429(FM)

3. **Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi gaffael cyhoeddus Llywodraeth Cymru? OAQ(4)2436(FM)

4. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymateb Cymru i argyfwng y ffoaduriaid o Syria? OAQ(4)2434(FM)

5. **Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei ymweliad diweddar â Japan? OAQ(4)2435(FM)

6. **Jeff Cuthbert (Caerffili):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddelio â'r argyfwng ffoaduriaid a dyngarol yn Ewrop? OAQ(4)2422(FM)

7. **Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am raglen Ysgolion y 21ain Ganrif? OAQ(4)2427(FM)

8. **Janet Haworth (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cysylltedd band eang yng nghefn gwlad Cymru? OAQ(4)2432(FM)

9. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Orchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2015? OAQ(4)2424(FM)

**10. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol Dechrau'n Deg? OAQ(4)2419(FM)

**10. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fynediad i gyfiawnder yng Nghymru? OAQ(4)2420(FM)

**12. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am rôl Llywodraeth Cymru o ran derbyn ffoaduriaid o Syria yn dilyn cyhoeddiad diweddar Llywodraeth y DU y bydd y DU yn cymryd hyd at 20,000 o ffoaduriaid o Syria yn ystod oes senedd presennol y DU? OAQ(4)2430(FM)

**13. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu yng Nghymru? OAQ(4)2431(FM)

**14. David Rees (Aberafan):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi diwydiannau gweithgynhyrchu yng Nghymru? OAQ(4)2423(FM)

**15. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa effaith y bydd penderfyniad Llywodraeth y DU i gael gwared ar y rhwymedigaeth ddi-garbon ar gyfer cartrefi newydd yn ei chael ar gynlluniau Llywodraeth Cymru i greu cartrefi cynnes a fforddiadwy ledled Cymru? OAQ(4)2433(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mawrth 22 Medi 2015 a dydd Mercher 23 Medi 2015**
**Dydd Mawrth 29 Medi 2015 a dydd Mercher 30 Medi 2015**
**Dydd Mawrth 6 Hydref 2015 a dydd Mercher 7 Hydref 2015**

---

**Dydd Mawrth 22 Medi 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Ymrwymiadau yn ystod y flwyddyn 2015-16 (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Creu Cymwysterau Cymru (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd: Cynllun Gofal Sylfaenol - diweddariad ar ôl blwyddyn (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Diweddariad ar Gynllun Cenedlaethol Cyllid Trafnidiaeth 2015 (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Ymelwa Busnes Band Eang Cyflym Iawn (30 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mercher 23 Medi 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 29 Medi 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) o dan Reol Sefydlog 26.44 (180 munud)

*Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y cynnig. Os nad yw'r Cynulliad yn cytuno ar y cynnig, caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y Bil.*

**Dydd Mercher 30 Medi 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau – Atal Recriwtio i’r Fyddin mewn Ysgolion (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl fer – Mark Isherwood (Gogledd Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 6 Hydref 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:
    - Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Deunydd Perthnasol a Eithrir) (Cymru) 2015 – i'w gwneud o dan Adran 7 o'r Ddeddf (10 munud)
    - Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Cynrychiolwyr Penodedig) (Cymru) 2015 – i'w gwneud o dan Adran 8 o'r Ddeddf (10 munud)
    - Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Personau nad yw’r Galluedd Ganddynt i Gydsynio) (Cymru) 2015 – i'w gwneud o dan Adran 9 o'r Ddeddf (10 munud)
    - Cod Ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (10 munud)
- Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) (15 munud)

**Dydd Mercher 7 Hydref 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau – Deddfwriaeth Orfodol i Sicrhau Bod Diffibrilwyr ar Gael Ym Mhob Man Cyhoeddus (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Mike Hedges (Dwyrain Abertawe) (30 munud)